
# Llawlyfr y defnyddiwr ar Broffiliau Arolygwyr



| CYNNWYS | TUDALEN |
| --- | --- |


**1 TUDALEN GARTREF** **1**

1.1 Panel llywio 1
1.2 Llun yr arolygydd 2
1.3 Manylion personol 2
1.4 Manylion cyswllt 5
1.5 Cyflogwr presennol 5

**2 CYFLOGAETH** **6**

2.1 Hanes cyflogaeth 6
2.2 Profiad rheoli 7

**3 ROLAU AROLYGU** **8**

3.1 Cyfnod a rôl 8
3.2 Statws arolygydd cofrestredig 8
3.3 Statws Athro Cymwysedig 8
3.4 Manylion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 9

**4 PRISIAU** **9**

**5 ARBENIGEDDAU** **13**

**6 HYFFORDDIANT ESTYN** **13**

**7 AROLYGIADAU** **14**

7.1 Arolygiadau sydd ar ddod ac arolygiadau diweddar 14
7.2 Profiad arolygu 14

**8 HEPGORIADAU** **14**

**9 CALENDR ARGAELEDD** **16**

**10 HANES CYSWLLT** **17**

**11 MYNEDIAD AROLYGWYR COFRESTREDIG AT BROFFILIAU YN YSTOD AROLYGIAD** **17**

**12 MYNEDIAD I BROFFILIAU AROLYGWYR** **20**

# 1 TUDALEN GARTREF

Y dudalen gartref yw'r dudalen daw arolygwyr iddi wrth agor y proffiliau arolygwyr. Ar y dudalen hon, gall arolygwyr ddiweddaru eu manylion cyflogaeth, manylion personol a chyswllt, a lanlwytho llun maint pasbort diweddar. Dylai'r manylion hyn fod yn gyfredol bob amser.




## 1.1 PANEL LLYWIO

Mae'r panel llywio ar gael ar ochr dde'r dudalen Cartref ac mae'n galluogi defnyddwyr i lywio drwy Broffil yr Arolygydd. Mae dewislen y panel llywio hwn yn gyson drwy'r proffil cyfan a gellir ei ddefnyddio ar unrhyw dudalen.


| |
|---|
| **Cartref** – Yn dangos manylion cyswllt, manylion cyflogaeth a llun maint pasbort o'r arolygydd at ddibenion adnabod. |
| **Cyflogaeth** – Yn cynnwys yr holl fanylion cyflogaeth blaenorol a chyfredol a phrofiad rheoli i sicrhau y caiff arolygwyr eu defnyddio'n briodol mewn arolygiad. |
| **Rolau** – Yn cynnwys manylion am sector a rôl yr arolygydd, yn ogystal â rhif yr arolygydd cofrestredig a'r dyddiad y daw i ben. Mae Estyn yn gofyn i arolygwyr roi eu rhif athro hefyd (SAC – Statws Athro cymwysedig) neu, fel arall, eu rhif DES / DfEE / AdAS / CyngACC. |
| **Prisiau** – Dylai prisiau gael eu rhoi yma os hoffai arolygwyr gael eu hystyried ar gyfer arolygiadau ar fyr rybudd. Sylwer y bydd cyfnodau byr yn unig yn ystod y flwyddyn pan all arolygwyr ddiwygio'r cyfraddau hyn. |
| **Arbenigeddau** – Bydd manylion am yr arbenigeddau y cadarnhawyd arolygwyr ar eu cyfer i'w gweld ar y dudalen hon. |
| **Hyfforddiant** – Bydd hanes o ddigwyddiadau hyfforddiant yn ymddangos ar y dudalen hon. |
| **Arolygiadau** – Bydd hanes o ddigwyddiadau hyfforddiant ac arolygiadau a fynychwyd ac arolygiadau sydd ar ddod yn ymddangos ar y dudalen hon. Bydd arolygiadau yn ymddangos ar y dudalen hon wedi i'r darparwr gael ei hysbysu yn unig. |



| | |
|---|---|
| **Hepgoriadau –** Dylai arolygwyr ddatgan pob achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau ar y dudalen hon. Gweler yr arweiniad a'r polisi gwrthdaro buddiannau ar wefan Estyn am ragor o wybodaeth. | |
| **Argaeledd** – Dylai arolygwyr roi'r dyddiadau nad ydynt ar gael ar gyfer gwaith arolygu neu ddigwyddiadau hyfforddiant. | |
| **Hanes cyswllt** – Gall arolygwyr gysylltu ag Estyn drwy broffiliau'r arolygwyr. Bydd cofnod o'r holl ohebiaeth yn cael ei ddogfennu ar y dudalen hon. | |

## 1.2 LLUN YR AROLYGYDD

Dylai arolygwyr lanlwytho llun diweddar ohonyn nhw'u hunain at ddibenion adnabod. I lanlwytho llun, dewiswch y botwm 'Lanlwytho Llun'. Dewiswch y botwm 'Pori' i ddod o hyd i'r ffeil sydd ei heisiau arnoch, a dewiswch 'Agor'. Caiff manylion am y ffeil eu harddangos yn y maes.







Dewiswch 'Cadw' i gadw'r manylion.

## 1.3 MANYLION PERSONOL


**Os yw eich enw'n anghywir, heb ei lenwi'n gywir neu wedi newid, diweddarwch eich manylion drwy ddilyn y broses sydd wedi'i hamlinellu isod. Dylech ddilyn yr un cyfarwyddiadau os nad oes gennym eich dyddiad geni neu os yw wedi'i lenwi'n anghywir.**

**Enw llawn:**





- Golygu: Bydd y botwm 'Golygu' yn eich galluogi i olygu cynnwys.
- Ychwanegwch eich teitl, eich enw cyntaf a'ch cyfenw/enw teulu.
- Dewiswch 'Cadw' i gadw eich manylion.

**Adnabod fel:**




- Golygu: Bydd y botwm 'Golygu' yn eich galluogi i olygu cynnwys.
- Ychwanegwch yr enw rydych yn cael eich galw er mwyn i ni eich adnabod yn hawdd.
- Dewiswch 'Cadw' i gadw eich manylion.


**Dyddiad geni:**




- Golygu: Bydd y botwm 'Golygu' yn eich galluogi i olygu cynnwys.
- Ychwanegwch yr enw rydych yn cael eich galw er mwyn i ni eich adnabod yn hawdd.
- Dewiswch 'Cadw' i gadw eich manylion.

Rhowch y wybodaeth hon gan ei bod yn ddynodwr unigryw, a bydd angen y wybodaeth hon arnom os ydych wedi ymuno â gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

**Statws:** Bydd hyn yn nodi a yw eich cyfrif yn weithredol neu'n anweithredol. Ni all y statws gael ei ddiwygio drwy'r proffiliau arolygwyr. Os yw'r statws yn anghywir, defnyddiwch y botwm Hysbysu i roi gwybod i Estyn.




Ar y sgrin hon, gallwch gyflwyno ceisiadau am newidiadau neu anfon dogfen at Estyn. Bydd cadw'r ffurflen yn anfon y neges e-bost at Estyn yn awtomatig.

**Rhif COBAS:** Mae eich rhif COBAS yn unigryw i chi ac ni ellir ei addasu. Caiff y rhif hwn ei ddefnyddio fel dynodwr unigryw.

## 1.4 MANYLION CYSWLLT

Gall yr arolygydd ddiwygio pob adran dan y pennawd hwn. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw'r wybodaeth hon yn gyfredol. Bydd cyfeiriadau e-bost arolygwyr yn ffurfio rhan o'r cyfrinair i ddefnyddio'r Ystafell Arolygu Rhithwir (YAR) a'r proffiliau arolygwyr. Efallai y byddwch yn methu gwybodaeth a diweddariadau pwysig os nad yw'r wybodaeth hon yn gyfredol. Bydd y botwm 'Golygu' yn eich galluogi i olygu cynnwys. Dewiswch 'Cadw' i gadw'r manylion.



**Manylion Cyswllt**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad Cartref:** | 15 Apple tree farm<br>Abbey Lane<br>Rhoose<br>Vale of Glamorgan<br>CF54 OAT | Golygu |
| **Rhif Ffôn Cartref:** | 02920446523 | Golygu |
| **Rhif Ffôn Symudol:** | 07965231455 | Golygu |
| **Rhif Ffôn mewn Argyfwng:** | 07932568741 | Golygu |
| **E-bost:** | inspectorprofiles@estyn.gov.uk | Golygu |
| **E-bost Arall:** | Jhome1984@googlemail.com | Golygu |

## 1.5 CYFLOGWR PRESENNOL

Dylai arolygwyr roi manylion am eu cyflogwr presennol yn yr adran hon. Dylai'r darparwr sydd wedi'i gynnwys yn yr adran hon gael ei ychwanegu at yr adran hepgoriadau hefyd er mwyn sicrhau y caiff arolygwyr eu defnyddio'n briodol.



**Cyflogwr Presennol**


| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Enw'r darparwr |
| **Cyfeiriad:** | Meadow Street<br>Cardiff<br>Cardiff<br>CF24 5JW<br>Pendefigaeth y Deyrnas Unedig |
| **Ffôn:** | 02920 44 6987 |
| **Awdurdod Lleol:** | |
| **Darparwr mewn categori?** | Heb fod mewn categori |
| **Ysgol Ffydd:** | No |
| **Rôl:** | NVQ Assessor |
| **Dyddiad Dechrau:** | 28 Ebr 2014 |

Hanes Cyflogaeth

# 2 CYFLOGAETH

## 2.1 HANES CYFLOGAETH

Gellir mynd i'r sgrin Cyflogaeth o'r ddolen Hanes Cyflogaeth ar y ddewislen lywio. Mae'r dudalen hon yn dangos hanes cyflogaeth yr Arolygydd. Gellir gweld neu ddiwygio'r manylion am Hanes Cyflogaeth gan ddefnyddio'r botwm 'Manylion'.


Hanes Cyflogaeth Jerry Cann


Hanes Cyflogaeth

| Sefydliad | Rôl | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | |
|---|---|---|---|---|
| Enw'r darparwr | Athro/Athrawes | 28 Ebr 2014 | | Manylion |
| Enw'r darparwr | Cyfarwyddwr Cynorthwyol | 28 Chw 2010 | 15 Rha 2013 | Manylion |
| Enw'r darparwr | Pennaeth | 15 Ion 2000 | 31 Aws 2010 | Manylion |

Cyflogwr Newydd

### Ychwanegu cyflogwr newydd

Gall arolygwyr ychwanegu cyflogwr newydd gan ddefnyddio'r botwm 'Cyflogwr newydd'. Sicrhewch eich bod yn cofnodi eich hanes cyflogaeth blaenorol. Os nad yw eich cyflogwr wedi'i restru dan chwilio sefydliadau, ychwanegwch fanylion y cyflogwr â llaw.


Manylion am Gyflogaeth

Arbed | Diddymu

1. Teipiwch enw neu ran o enw'r cyflogwr a chlicio ar 'Chwilio am Sefydliad'.
2. Os daethpwyd o hyd i fwy nag un gyfatebiaeth, yna dewiswch y sefydliad o'r opsiynau a ddychwelwyd yn y gwymplen a chlicio ar 'Llwytho Cyfeiriadau Sefydliad'.
3. Os na ddychwelwyd y sefydliad, yna nodwch yr enw llawn yn gywir ym maes y sefydliad a chlicio ar 'Chwilio am y Sefydliad' eto.
4. Cwblhewch fanylion am y cyfeiriad ar gyfer eich sefydliad.

Sefydliad

Chwilio am Sefydliad

Cyfeiriad

Ffôn

Rôl

Dyddiad Dechrau

Dyddiad Gorffen

Arbed | Diddymu


## 2.2 PROFIAD RHEOLI

Gall arolygwyr gofnodi Profiad Rheoli ar y sgrîn Hanes Cyflogaeth. Testun rhydd yw hwn a gellir ei ddiwygio gan ddefnyddio'r botwm Golygu. Wedi i chi ychwanegu eich gwybodaeth, cliciwch y botwm Cadw. Dylai arolygwyr gofnodi hanes eu cyflogaeth am y pum mlynedd diwethaf.

I ychwanegu manylion am eich profiad rheoli, cliciwch y botwm golygu:





Rhowch eich gwybodaeth a chliciwch y botwm cadw i fynd yn ôl i'r dudalen Cyflogaeth.



# 3 ROLAU AROLYGU

Ni all y wybodaeth ar y dudalen hon gael ei diwygio gan yr arolygydd.  Mae gwybodaeth yn yr adran hon yn cynnwys y dyddiad y daw cofrestriad yr arolygydd cofrestredig i ben, y rhif statws athro cymwysedig (neu'r rhif DSE fel arall), a rhif tystysgrif DBS a'r dyddiad y daw i ben.



**Rolau Jerry Cann**

**Rolau**

| Cyfnod | Rolau |
|---|---|
| Uwchradd | Tîm 1 |
| Uwchradd | Arweiniol |
| Cynradd | Tîm 1 |

**Arolygwyr Cofrestredig**

| Cofrestru | Dyddiad y Daw i Ben |
|---|---|
| ACof Arolygydd Cofrestredig | 01 Ebr 2015 |

**Statws Athro Cymwys**

**Rhif SAC neu Adran Addysg:** 323564321687 Golygu
**Mae hyn yn ofynnol gan Estyn.**

**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

**Rhif Datgeliad Manylach:** 31258779654
**Dyddiad y Daw i Ben:** 08 Meh 2016

**A yw'r manylion hyn yn gywir? Os yw unrhyw un o'ch manylion wedi newid, a fyddech cystal â dweud wrthym.** Hysbysu Estyn

Wedi gwneud

## 3.1 CYFNOD A RÔL

Caiff cyfnodau a rolau eu cofnodi ar ôl i'r arolygydd gwblhau hyfforddiant a chael ei gadarnhau/chadarnhau i arolygu yn y sector penodol.


## 3.2 STATWS AROLYGYDD COFRESTREDIG

Mae'n ofynnol i arolygwyr cofrestredig ailgofrestru ag Estyn bob tair blynedd.  Mae manylion am gofrestriad Arolygydd a'r dyddiad y daw i ben yn yr ail adran ar y sgrîn Rolau.

## 3.3 STATWS ATHRO CYMWYSEDIG

Mae'r drydedd adran ar y dudalen yn dangos Rhif Statws Athro Cymwysedig yr Arolygydd, y gall yr arolygydd ei ddiwygio.  Mae Estyn hefyd yn gofyn i arolygwyr roi eu rhif athro (SAC – Statws Athro Cymwysedig) neu fel arall y rhif DES / DfEE / AdAS neu CyngACC.

I ychwanegu'r rhif hwn at eich proffil, cliciwch y botwm Golygu, rhowch y rhif a chliciwch Cadw:


**Mewnbynnu/Diwygio Priodweddau Unigolyn (Statws Athro Cymwys)**

Arbed | Diddymu

Cod 06413 Cann, Dr Jerry

Rhif SAC neu Adran Addysg 323564321687


Arbed | Diddymu

### 3.4 MANYLION Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD

Mae adran olaf y sgrîn Rolau yn dangos Rhif Datgeliad Manylach yr Arolygydd a'r dyddiad y daw'r dystysgrif i ben. Caiff y wybodaeth hon ei chynnal gan Estyn ac ni ellir ei diwygio drwy broffil yr arolygydd.

## 4 PRISIAU

Gall yr arolygydd roi prisiau contractau yn ôl y gofyn drwy'r sgrîn Prisiau. Os hoffech ymuno â'r rhestr contractau yn ôl y gofyn h.y. i alw arnoch i arolygu ar fyr rybudd, rhowch eich prisiau yma. Sylwch y bydd cyfnodau byr yn unig yn ystod y flwyddyn pan all arolygwyr ddiwygio'r prisiau hyn.


**Contract yn ôl y gofyn Jerry Cann**

**Contract yn ôl y gofyn**

**A ydych chi wedi'ch cofrestru ar restr galw yn ôl y gofyn Estyn:** Ydw

**Ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TAW:** Ydw


| Rôl | Sector | Iaith | Rhanbarth | Cyfradd ddyddiol |
|---|---|---|---|---|
| Arweiniol | Uwchradd | Saesneg | Rhanbarth 7 | £1.00 |
| Arolygydd Cymheiriaid | Cynradd | Saesneg | Rhanbarth 2 | £1.00 |
| Tîm | Cynradd | Cymraeg | Rhanbarth 4 | £1.00 |

**I ychwanegu eich cyfradd ddyddiol neu i ddiwygio cyfradd bresennol, cliciwch** fan hyn

**Os oes gennych ymholiad am gontractau yn ôl y galw** Hysbysu Estyn

Wedi gwneud


Cliciwch Nodwch y Cyfraddau i gofrestru ar gyfer contractau yn ôl y gofyn a rhowch eich cyfraddau dyddiol ar gyfer y rhanbarthau yr hoffech weithio ynddynt.


Nodwch y Cyfraddau
Arbed
Diddymu
Unigolyn
Cann, Dr Jerry
Llwythwch Cyfuniadau Cyfredol
Rôl
Arweiniol
Arolygydd Cymheiriaid
Tîm
Arolygydd Lleyg
Sector
Cwmni Gyrfaoedd
Sylfaen
Addysg Bellach
Annibynnol
Ysgol Arbennig Annibynnol
Awdurdod Lleol
Arbennig a Gynhelir
Lleoliadau Meithrin Nas Cynhelir
Cynradd
UCD
Uwchradd
Addysg a Hyfforddiant Athrawon
Dysgu yn y Gwaith
Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid a Chymuned
Dysgu Oedolion yn y Gymuned
Coleg Arbenigol Annibynnol
PrimaryALN
SecondaryALN
Iaith
Saesneg
Cymraeg
Rhanbarth
Rhanbarth 1
Rhanbarth 2
Rhanbarth 3
Rhanbarth 4
Rhanbarth 5
Rhanbarth 6
Rhanbarth 7
Rhanbarth 8
Rhanbarth 9
Rhanbarth 10
Region 11
Llwythwch Cyfuniadau a Ddewiswyd


Wedi i chi ddewis rôl, sector, iaith a'r rhanbarth y gallwch weithio ynddo, cliciwch 'Llwythwch Cyfuniadau a Ddewiswyd'.





Yna, rhowch eich cyfradd ddyddiol ar gyfer pob cyfuniad yr hoffech gael eich ystyried ar ei gyfer (fel y dewiswyd gennych uchod).




Os oes gennych fwy nag un cyfuniad, gallwch osod yr un gyfradd ddyddiol ar gyfer pob cyfuniad





I ddileu neu dynnu unrhyw gyfuniad, tynnwch y cofnod o flwch y gyfradd ddyddiol.




Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar gyfer contractau yn ôl y gofyn, anfonwch neges e-bost at dîm Cyllid Estyn drwy glicio'r botwm 'Hysbysu Estyn'.



Rhowch eich ymholiad yn y blwch a chliciwch Cadw, a fydd yn anfon neges e-bost at Estyn yn awtomatig.





Caiff manylion am yr holl ohebiaeth eu cadw dan y botwm hanes cyswllt ar y panel llywio ar ochr dde'r sgrîn.



# 5 ARBENIGEDDAU

Mae'r sgrîn hon yn dangos unrhyw Arbenigeddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol y cadarnhawyd arolygydd i'w harolygu. Os hoffech wneud unrhyw ddiwygiadau neu dynnu arbenigedd sydd wedi'i restru yn erbyn eich enw, defnyddiwch y botwm 'Hysbysu Estyn', fel yr amlinellir isod.



**Arbenigeddau Jerry Cann**

**Arbenigeddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol**

| **Mae'r pynciau canlynol wedi'u rhestru:** |
|---|
| Rheolaeth/Rheolwyr |
| Celf a Dylunio |
| Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol |
| Dyspracsia |
| Saesneg |
| Hans |
| Llythrennedd |

**Rhowch wybod i ni am unrhyw arbenigeddau ychwanegol nad ydynt wedi'u rhestru yma.** Hysbysu Estyn

Wedi gwneud

# 6 HYFFORDDIANT ESTYN

Bydd y sgrîn Hyfforddiant yn dangos hanes digwyddiadau hyfforddiant Estyn a fynychwyd gennych.



**Hyfforddiant Jerry Cann**

**Hanes Hyfforddiant**

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| 12 Gor 2013 | Diweddaru ACof |
| 15 Gor 2011 | Diweddariad Cynradd |
| 23 Meh 2010 | Diweddariad uwchradd |

**Mynychodd hyfforddiant diweddaru ddiwethaf :** 12 Gor 2013

**A yw'r manylion hyn yn gywir?** Hysbysu Estyn

Wedi gwneud

# 7 AROLYGIADAU

## 7.1 AROLYGIADAU SYDD AR DDOD AC AROLYGIADAU DIWEDDAR

Bydd manylion am eich arolygiadau sydd ar ddod ac arolygiadau diweddar yn ymddangos ar y dudalen hon. Er y bydd arolygwyr yn ymwybodol o'u harolygiadau, bydd enwau'r arolygiadau hyn yn ymddangos yn y proffiliau ar ôl i'r darparwr gael ei hysbysu am yr arolygiad yn unig.

**Arolygiadau Diweddar ac Arolygiadau sydd ar Ddod**

| Rhif adnabod | Dyddiad Dechrau | Darparwr | Awdurdod Lleol | Math o Ddigwyddiad | Rôl |
|---|---|---|---|---|---|
| 0577 | 05 Sep 2014 | Darparwr | Awdurdod Lleol | Arolwg | Tîm1 |

## 7.2 PROFIAD AROLYGU

Bydd hanes yr holl arolygiadau rydych wedi ymgymryd â nhw gydag Estyn wedi'i restru ar y dudalen hon. Caiff rhestr o'r graddau a gawsoch ar gyfer pob arolygiad ei dangos wrth ochr eich hanes arolygu.

**Profiad Arolygu**

| Rhif adnabod | Dyddiad Dechrau | Darparwr | Awdurdod Lleol | Math o Ddigwyddiad | Rôl | Sector | FfAA - Gradd | Gradd SAAr | Gradd SAAd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0577 | 05 Medi 2014 | Darparwr | Awdurdod Lleol | Arolwg | Tîm1 | Cynradd | A | B | C |

# 8 HEPGORIADAU

Mae'n ofynnol i arolygwyr ddatgan pob achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau. Bydd y proffil yn dangos unrhyw wrthdrawiadau sydd eisoes wedi'u cofnodi ar gronfa ddata Estyn. Yr arolygydd sy'n gyfrifol am wirio'r wybodaeth hon a sicrhau ei bod yn gyfredol, a'i fod/bod yn datgan pob gwrthdrawiad.

**Nodweddion sy'n atal Jerry Cann**

**Hepgoriadau**

**Mae'n ofynnol i bob arolygydd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau sydd ganddynt ar y ffurflen cyn eu defnyddio mewn digwyddiad. Sicrhewch fod y ffurflen hon yn cael ei chwblhau a'i chadw'n gyfredol. Gallwch roi gwybod i Estyn am unrhyw beth sy'n eich atal ar unrhyw adeg. Pan gewch wybod y byddwch yn cael eich defnyddio mewn digwyddiad, rhowch wybod i Estyn ar unwaith os oes gwrthdaro buddiannau neu'r posibilrwydd o achos ymddangosiadol o wrthdaro buddiannau. Defnyddiwch eich crebwyll proffesiynol i nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl nad ydynt yn cael eu rhestru yn y rheolau atal sy'n ymddangos yn y** polisi gwrthdaro buddiannau.

**Rydych wedi dweud wrthym am yr hepgoriadau canlynol / achosion canlynol o wrthdaro buddiannau:**


| Sefydliad | Awdurdod Lleol | Rheswm dros hepgor | Tan |
|---|---|---|---|
| Name of Provider | | 06 Dysgu yn y gwaith yn unig – mewn cyflogaeth | 18/07/2014 |

Ychwanegu Hepgoriad

**Rhowch wybod i Estyn am unrhyw newidiadau eraill.** Hysbysu Estyn

Wedi gwneud

I ychwanegu hepgoriad, cliciwch 'Ychwanegu Hepgoriad'.  Bydd hyn yn eich galluogi i ddatgan achos gwirioneddol neu ganfyddedig o wrthdaro buddiannau sydd gennych â darparwr.  Mae hepgoriadau'n berthnasol am dair blynedd.  Dylai arolygwyr fod yn gyfarwydd â'r polisi gwrthdaro buddiannau ar wefan Estyn, sydd i'w weld yma:  Rheoli achosion o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â gwaith arolygu



**Hepgoriad Sefydliad**

Arbed | Diddymu

1. Teipiwch enw neu ran o enw'r sefydliad a chlicio ar 'Chwilio am Sefydliad'.
2. Os daethpwyd o hyd i fwy nag un gyfatebiaeth, yna dewiswch y sefydliad o'r opsiynau a ddychwelwyd yn y gwymplen.
3. Dewis y Rheswm dros Hepgor o'r opsiynau sydd ar gael.

Sefydliad

Chwilio am Sefydliad

Rheswm dros hepgor

- 01 Mewn cyflogaeth ar hyn o bryd/yn flaenorol
- 02 Cysylltiad cymdeithasol neu broffesiynol
- 04 Aelod o'r teulu mewn cyflogaeth neu yn gysylltiedig
- 05 Ymgynghorwyr her yn unig – mewn cyflogaeth
- 06 Dysgu yn y gwaith yn unig – mewn cyflogaeth
- 07 Unrhyw wrthdaro arall

Esboniad Ychwanegol (Dewisol)

A yw'r preclusion parhaus? Os nad yw, ar ba ddyddiad wnaeth y cysylltiad â diwedd darparwr?

Arbed | Diddymu

Rheolau sy'n atal defnyddio arolygydd yn ystod arolygiad yn sgil achos posibl o wrthdaro buddiannau:

**01** Os yw'r **arolygydd** yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd gan y darparwr neu wedi gweithio'n flaenorol i'r darparwr (gan gynnwys gweithio mewn r"l ymgynghori/ cynghori, e.e. dan gontract ar gyfer gwasanaethau) o fewn y tair blynedd flaenorol, bydd yr hepgoriad yn erbyn y darparwr a'i Awdurdod Lleol cysylltiedig..

**02** Os yw'r **arolygydd** o fewn y tair blynedd flaenorol, ag ymglymiad cymdeithasol neu broffesiynol uniongyrchol ym musnes y darparwr, e.e. mae neu mae wedi bod yn ddisgybl/myfyriwr, llywodraethwr, ymgynghorydd neu gontractwr, bydd yn cael ei wahardd rhag arolygu'r darparwr hwnnw

**04** Os yw **aelod o'r teulu**, o fewn y tair blynedd flaenorol, yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd neu wedi gweithio'n flaenorol i'r darparwr (yn cynnwys gweithio mewn r"l ymgynghori/cynghori, e.e. dan gontract ar gyfer gwasanaethau), neu os ydyw o fewn y tair blynedd flaenorol, ag ymglymiad cymdeithasol neu broffesiynol uniongyrchol ym musnes y darparwr, e.e. mae neu mae wedi bod yn ddisgybl/myfyriwr, ymgynghorydd neu gontractwr. .

**05 Cynghorwyr Herio yn unig** Ä Os yw'r arolygydd yn cael ei gyflogi/chyflogi ar hyn o bryd neu wedi gweithio i'r darparwr yn flaenorol (gan gynnwys gweithio mewn r"l ymgynghorol/cynghorol e.e. dan gontract ar gyfer gwasanaethau) yn ystod y tair blynedd diwethaf, caiff yr arolygydd ei hepgor rhag arolygu'r darparwr a'r consortiwm addysg cysylltiedig..


**06 Dysgu yn y gwaith yn unig** Ä Os yw'r arolygydd yn cael ei gyflogi/chyflogi ar hyn o bryd neu wedi gweithio i'r darparwr yn flaenorol (gan gynnwys gweithio mewn r"l ymgynghorol/cynghorol e.e. dan gontract ar gyfer gwasanaethau) yn ystod y tair blynedd diwethaf, caiff yr arolygydd ei hepgor rhag arolygu'r darparwr a'r consortiwm dysgu yn y gwaith cysylltiedig..

**07** Os oes gan yr **arolygydd** neu **aelod o'r teulu** unrhyw fuddiant arall yn y darparwr neu gysylltiad ƒ'r darparwr a allai ddynodi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig..

*Sylwer: Diffinnir 'aelod o'r teulu' fel rhiant, priod (yn cynnwys partner) a/neu blentyn..


Mae angen i chi sicrhau eich bod yn cofnodi'r dyddiad y daeth y berthynas â'r darparwr i ben.  Os yw'r hepgoriad yn parhau, dylid gadael y blwch yn wag.

Os hoffech dynnu hepgoriad neu siarad ag Estyn am achos o wrthdaro buddiannau, cliciwch y botwm Hysbysu Estyn.  Bydd y ffurflen gyswllt yn galluogi'r arolygydd i Hysbysu Estyn os oes unrhyw hepgoriadau y mae angen eu tynnu.  Bydd cadw'r ffurflen yn anfon neges e-bost at gyswllt priodol Estyn yn awtomatig.





# 9 CALENDR ARGAELEDD

Bydd y calendr argaeledd yn galluogi'r arolygydd i gofnodi cyfnodau o amser pan nad yw ar gael i fynd ar arolygiad neu fynychu digwyddiadau hyfforddiant.





I gofnodi cyfnodau pan na fyddwch ar gael, cliciwch y ddolen 'Cyfnod Newydd pan na fyddaf ar Gael', a fydd yn agor y sgrîn cofnodi. Bydd arolygwyr yn gallu cofnodi'r dyddiadau pan na fyddant ar gael ynghyd â rheswm pam na fydd ar gael. Gallwch addasu cyfnodau presennol pan na fyddwch ar gael gan ddefnyddio'r botwm 'Golygu'.




# 10 HANES CYSWLLT

Mae'r sgrîn Hanes Cyswllt yn galluogi arolygwyr i ddilyn llwybr archwilio o ohebiaeth rhyngddyn nhw ac Estyn. Caiff cofnod ei gadw o ymholiadau a anfonwyd at Estyn.




# 11 MYNEDIAD AROLYGWYR COFNODOL AT BROFFILIAU YN YSTOD AROLYGIAD


Bydd arolygwyr cofnodol yn gallu gweld proffiliau eu tîm cyn ac yn ystod arolygiad i alluogi arolygwyr cofnodol i ddefnyddio a lleoli arolygwyr yn fwy effeithiol mewn arolygiadau. Bydd arolygwyr cofnodol yn gallu mynd at broffiliau drwy eu proffil arolygydd unigol.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn gallu gweld y wybodaeth ganlynol am bob un o aelodau'r tîm:


- Enw llawn
- Adnabod fel
- Rhif ffôn symudol
- Rhif ffôn mewn argyfwng
- E-bost
- Llun adnabod
- Cyflogwr presennol, cyfeiriad a rhif ffôn y cyflogwr
- Awdurdod lleol y cyflogwr

- Rôl bresennol
- Profiad rheoli
- Arbenigeddau

I gael mynediad i broffiliau eich tîm, cliciwch ar y botwm Arolygiadau ar y panel llywio.




Dewiswch yr arolygiad sydd ei angen, a chliciwch ar rif adnabod yr arolygiad.




Bydd hyn yn rhoi mynediad i chi i broffiliau’r tîm arolygu.



## Proffiliau Arolygydd Jen Day

**Enw Llawn:** Jen Day
**Adnabod fel:**



**Manylion Cyswllt**

| | |
|---|---|
| **Rhif Ffôn Symudol:** | 07548963254 |
| **Rhif Ffôn mewn** | 07841236589 |
| **Argyfwng:** | |
| **E-bost:** | 98@google.com |

**Cyflogwr Presennol**

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Estyn - Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales |
| **Cyfeiriad:** | Anchor Court<br>Keen Road<br>Cardiff<br>CF24 5JW<br>Pendefigaeth y Deyrnas Unedig |
| **Ffôn:** | 02920 446446 |
| **Awdurdod Lleol:** | |
| **Rôl:** | Athro/Athrawes |

Wedi gwneud

- Cartref
- Enw ac Unigolyn Cyswllt
- Cyflogaeth
- Arbenigeddau

## Cyflogaeth Jen Day

**Cyflogwr Presennol**

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Estyn - Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales |
| **Cyfeiriad:** | Anchor Court<br>Keen Road<br>Cardiff<br>CF24 5JW<br>Pendefigaeth y Deyrnas Unedig |
| **Ffôn:** | 02920 446446 |
| **Awdurdod Lleol:** | |
| **Rôl:** | Athro/Athrawes |

**Profiad Rheoli**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol am 3 blynedd - Profiad yn cynnwys...

Dirprwy Bennaeth am 2 flynedd - Profiad yn cynnwys...

Pennaeth am 6 mis - Profiad yn cynnwys...

Wedi gwneud

- Cartref
- Enw ac Unigolyn Cyswllt
- Cyflogaeth
- Arbenigeddau

## Arbenigeddau Jen Day

### Arbenigeddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Mae'r pynciau canlynol wedi'u rhestru:**

- Mynediad
- Celf
- Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol
- Bengaleg
- Bioleg
- Tsieinëeg

Wedi gwneud

- Cartref
- Enw ac Unigolyn Cyswllt
- Cyflogaeth
- Arbenigeddau

## 12 MYNEDIAD I BROFFILIAU AROLYGWYR

Mae sawl ffordd o gael mynediad at Broffiliau Arolygwyr; trwy'r ddolen yn nogfen y Cyflwyniad i Broffiliau Arolygwyr; hafan dudalen yr Ystafell Arolygu Rithwir a thudalen fynediad yr Ystafell Arolygu Rithwir.

Cliciwch ar y ddolen i gael mynediad at Ystafell Arolygu Rithwir Estyn.

http://vir.estyn.gov.uk


Cliciwch ar y ddolen ar y dudalen flaen i fynd at  broffiliau arolygwyr.





Os cewch eich atgoffa, cofnodwch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar gyfer yr YAR:




Os dyma'r tro cyntaf i chi ymweld â Phroffiliau Arolygwyr, bydd angen i chi sefydlu'ch proffil trwy gofnodi'r **Cod cyfrin** a gawsoch trwy neges e-bost.




Fodd bynnag, os ydych chi eisoes wedi sefydlu a mynd at eich proffil, bydd angen i chi gofnodi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair arferol ar gyfer yr YAR

Yn ogystal, gallwch chi fynd at eich proffil trwy glicio ar y dolenni ar hafan dudalen yr YAR.

